**Cydlynydd Stiwdio Clwyd**
**Theatr Clwyd** | Swydd-ddisgrifiad

---

**Teulu**: Tîm Creu
**Yn gyfrifol am:** Ddim yn berthnasol
**Yn adrodd i**: Gyfarwyddwr Stiwdio Clwyd
**Gradd:** OP3

---

**Stiwdio Clwyd**
Mae Stiwdio Clwyd yn stiwdio ddatblygu genedlaethol sy'n cefnogi gwneuthurwyr theatr ledled Cymru ar bob cam o'u gyrfa. Rydym yn rhoi gofod a strwythur i artistiaid adeiladu sgiliau, rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, cysylltu ag eraill yn y diwydiant, a datblygu eu crefft mewn amgylchedd sy'n annog arbrofi, cydweithio a chwarae. Mae Stiwdio Clwyd yn gartref i'r rheiny sy'n gelfydd uchelgeisiol, yn ofod ar gyfer arbrofi ac archwilio creadigol, trwyadl ac yn lle i chwarae o ddifrif.

**Diben y Swydd**

Cefnogi a chynorthwyo Cyfarwyddwr Stwdio Clwyd a chynhyrchydd(chynhyrchwyr) Stiwdio Clwyd drwy gyflawni cydlynu a gweinyddu effeithiol, gan alluogi gweithrediad llyfn ac effeithlon prosiectau Stiwdio Clwyd er mwyn cefnogi gwneuthurwyr theatr Cymru a rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn cefnogi'r tîm drwy nodi llwybrau ar gyfer cyfathrebu'r gwaith, a gyrru traffig i wefan Stiwdio Clwyd (www.walesmakestheatre.com) a chreu cynnwys cyfryngau cymdeithasol / marchnata / cyfathrebu i godi proffil gwaith Stiwdio Clwyd a'r sefydliad ehangach.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

GWEINYDDIAETH

• Gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Stiwdio Clwyd i gyflawni'r amcanion strategol a'r weledigaeth ar gyfer Stiwdio Clwyd.
• Gweithio'n agos gyda thîm Stiwdio Clwyd i sicrhau bod prosiectau a rhaglenni Stiwdio Clwyd yn rhedeg yn esmwyth.
• Cydlynu archebion ar gyfer ystafelloedd a lleoliadau (mewnol ac allanol) a sicrhau bod tîm Stiwdio Clwyd yn cael ei gefnogi o fewn y lleoliadau hynny.
• Goruchwylio'r broses o sefydlu'r holl artistiaid a gyflogir gan Stiwdio Clwyd
• Cydlynu gweinyddiaeth yr holl artistiaid a gyflogir gan Stiwdio Clwyd
• Cyfrifoldeb am weinyddiaeth a logisteg preswylfeydd, gweithdai, digwyddiadau ar-lein ar gyfer Stiwdio Clwyd, cynorthwyo gyda gweithredu prosesau a chynnal cofnodion cywir.
• Monitro e-bost Stiwdio Clwyd a'i anfon ymlaen at aelodau perthnasol o dîm Stiwdio Clwyd yn brydlon.
• Cefnogi Cyfarwyddwr Stiwdio Clwyd a'r Tîm Cyllid gyda gweinyddiaeth ariannol gywir – gan gynnwys monitro cyllideb, cadw cofnodion, prosesu archebion, anfonebau ac ati.
• Cydlynu, a lle bo angen ysgrifennu, asesiadau risg, gwybodaeth iechyd a diogelwch, dogfennau Gweithio gyda Fi / Mynediad, dogfennau Hawl i Weithio, dogfennau yswiriant ar gyfer pob prosiect Stiwdio Clwyd.

• Cyfleu gofynion mynediad a chefnogaeth sydd eu hangen ar artistiaid sy'n ymwneud â gwaith Stiwdio Clwyd a chefnogi tîm Stiwdio Clwyd i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi artistiaid.
• Cyhoeddi a choladu adroddiadau gwerthuso ar yr holl waith a wneir gan Stiwdio Clwyd.
• Coladu data meintiol ac ansoddol a chefnogi Cyfarwyddwr Stiwdio Clwyd i ysgrifennu adroddiadau.
• Cefnogi a chynorthwyo gyda datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, prosesau a gweithdrefnau.

CYFATHREBU

• Gweithio gyda thîm Stiwdio Clwyd a thîm Marchnata Theatr Clwyd i greu strategaeth farchnata ac amserlen a chefnogi gyda'r ddarpariaeth
• Cydlynu cylchlythyrau e-bost a defnyddio DotDigital i greu ymgyrchoedd e-bost wedi'u targedu, sy'n ddeinamig ac yn greadigol
• Cynorthwyo gydag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a marchnata ar gyfer gwaith Stiwdio Clwyd
• Cefnogi'r tîm i sicrhau bod gwefan Stiwdio Clwyd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, yn parhau i fod yn weithredol ac yn cyrraedd targedau allweddol ar gyfer ymgysylltu. Sicrhau bod tudalennau statig a digwyddiadau gwefan Stiwdio Clwyd yn gywir, yn ddeinamig ac yn cael eu hysgogi gan ymgysylltu.
• Monitro, diweddaru a chreu cynnwys ar gyfer sianeli cyfryngau cymdeithasol Stiwdio Clwyd
• Archwilio ffyrdd o gynyddu effaith gwefan Stiwdio Clwyd.
• Monitro ymgysylltiad y wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol – er enghraifft, trwy adrodd dadansoddol Google.
• Cynorthwyo gyda chasglu gwybodaeth ar gyfer y tîm Codi Arian yn Theatr Clwyd

CYFFREDINOL

• Lle bo'n briodol, cydlynu gweinyddiaeth a chyflawniad prosiectau a digwyddiadau
• Cefnogi Cyfarwyddwr Stiwdio Clwyd i gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth
• Cynnal perthnasoedd cadarnhaol ag aelodau cwmni Theatr Clwyd, artistiaid, sefydliadau partner a phob rhanddeiliad arall.
• Cefnogi Cyfarwyddwr Stiwdio Clwyd i integreiddio'r adran yn llawn â rhaglen ehangach Theatr Clwyd
• Bod yn llysgennad gweithredol dros Stiwdio Clwyd bob amser, a darparu'r lefel uchaf o ofal cwsmeriaid a hyrwyddo gwaith Theatr Clwyd a Stiwdio Clwyd.
• Gweithio yn unol ag Egwyddorion Arweiniol Stiwdio Clwyd a Theatr Clwyd.
• Gweithio er budd gorau'r theatr ac yn unol â pholisïau'r cwmni gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu, diogelu data a TG; a sicrhau bod yr holl weithgareddau wedi'u cynllunio yn unol â pholisïau'r cwmni.
• Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl cais Cyfarwyddwr Stiwdio Clwyd

---

**MANYLEB PERSON**

**HANFODOL**

- Profiad amlwg o weinyddu a chydlynu mewn amgylchedd swyddfa.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, yn gallu datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol ac amrywiaeth o bobl.

- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol gan roi sylw manwl i fanylion.
- Profiad neu wybodaeth marchnata sylfaenol.
- Hyderus wrth ddefnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes.
- Profiad o fonitro cyllidebau a gweinyddiaeth ariannol
- Hunan-ddibynnol gyda'r gallu i weithio ar eich menter eich hun, blaenoriaethu a rheoli ffrydiau gwaith niferus a chwrdd â therfynau amser
- Yn gallu cymhwyso meddwl addasol ac ochrol a rheoli tasgau niferus
- Ymrwymiad i gynhwysiant a'r gallu i ddelio'n sensitif â materion sy'n ymwneud â diogelu, amrywiaeth ac anghenion ychwanegol.
- Yn gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bach
- Yn gallu amsugno adborth a diwygio yn unol â hynny.
- Hyderus wrth ddefnyddio technoleg, gan gynnwys apiau Microsoft Office, Microsoft 365

**DYMUNOL**

• Diddordeb mewn theatr a'r celfyddydau
• Gwerthfawrogiad a'r gallu i siarad yn argyhoeddiadol am gefnogaeth a datblygiad artistiaid yn nhirwedd y theatr a gwaith Stiwdio Clwyd
• Profiad o greu cynnwys ar gyfer gwefannau (wordpress), systemau e-bost (e.e. Mailchimp, Dotdigital), cyfryngau cymdeithasol (yn enwedig Meta) a chreu cynnwys deinamig ar gyfer amrywiaeth o blatfformau.
• Profiad o ddefnyddio gwefannau a dadansoddi data o wefannau.
• Profiad o weithio gyda chronfeydd data/systemau CRM
• Sgiliau rhifedd rhagorol
• Cymraeg llafar ac ysgrifenedig
• Trwydded yrru lawn